

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (MEADOW RISE, Y COCYD, ABERTAWA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau’r darn o briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 12 Hydref 2021 o dan y cyfeirnod 2021/2580/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Meadow Rise, y Cocyd, Abertawe) 202- (“y Gorchymyn”), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 19 Gorffennaf 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopiau o’r Gorchymyn drafft a’r plan a adnewyd yn rhad ac am ddim rhwng 8:30 a.m. a 6 p.m. yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1529295.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y’u gwneir, i: Y Gangen Orchymnion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i [Trafnidiaeth.YGangenOrchymnion@llyw.cymru](mailto:Trafnidiaeth.YGangenOrchymnion@llyw.cymru) erbyn 15 Awst 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o’r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a’ch data personol yn cael eu trosglwyddo i’r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i’r awdurdod priffyrdd lleol i’w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny’n angenrheidiol er mwyn ymdrin â’r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo’r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (“YC”), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe’i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i’r cyhoedd.

## **TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

### **THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (MEADOW RISE, COCKETT, SWANSEA) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the 1990 Act”) to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the City and County of Swansea Council on 12 October 2021 with reference number 2021/2580/FUL described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Meadow Rise, Cockett, Swansea) Order 202- (“the Order”), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 19 July 2022 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge between 8:30 am and 6 pm at Swansea Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea, SA1 3SN or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1529295.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to [TransportOrdersBranch@gov.wales](mailto:TransportOrdersBranch@gov.wales) by 15 August 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry (“PI”), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**




**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### **ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

##### **Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r eiddo o'r enw 57 Meadow Rise, y Cocyd, Abertawe, i gyfeiriad y de-orllewin ac yna i gyfeiriad y gorllewin, sy'n 35 o fetrau o hyd yn y man hiraf ac yn 2.5 metr o led yn y man lletaf, fel y dangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

#### **ATODLEN 2**

##### **Y Datblygiad**

Adeiladu pum annedd sengl gyda gwaith cysylltiedig o ran seilwaith, tirlunio, man parcio a throi, adeiladu mynedfa o Meadow Rise a chreu cyswllt i gerddwyr â Gors Avenue.

#### **SCHEDULE 1**

**(All measurements are approximate)**

##### **Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway, located east of the property know as 57 Meadow Rise, Cockett, Swansea, and heading in a south westerly then western direction, with a maximum length of 35 metres, and a maximum width of 2.5 metres, as shown by zebra hatching on the deposited plan.

#### **SCHEDULE 2**

##### **The Development**

Construction of five detached dwellings with associated infrastructure, landscaping, parking and turning space, construction of means of access from Meadow Rise and creation of pedestrian link to Gors Avenue.